**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MB-LA-2412-13

Toni Schiavone
Cymdeithas yr Iaith

6 Mehefin 2013

Annwyl Toni,

**Maniffesto Byw ar gyfer Cymunedau Byw**

Ysgrifennaf atoch mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 4ydd o Ionawr 2013 ynglŷn â 'Maniffesto Byw ar gyfer Cymunedau Byw" Cymdeithas yr Iaith. Yn fy nghyfarfod gyda chi a'ch cydweithwyr ar y 5ed o Chwefror, cytunais i roi ymateb i chi ar eich Maniffesto.

Mae'r Maniffesto'n fanwl a phellgyrhaeddol ac rwy'n amgáu ymateb i bob un o'r argymhellion fel y'u nodir yn eich dogfen, lle mae'r argymhelliad yn berthnasol i Lywodraeth Cymru.

Wrth wneud hynny, dylwn bwysleisio bod Llywodraeth Cymru yn parhau'n ymrwymedig i wireddu'r weledigaeth a amlinellir yn ein Strategaeth y Gymraeg 2012-2017: *Iaith Fyw: Iaith Byw* sef gweld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru.

'Rwy'n cydnabod hefyd, wrth i ni barhau i roi ein Strategaeth ar waith, bod canlyniadau Cyfrifiad 2011 wedi tynnu sylw at rai cwestiynau heriol yr wyf yn benderfynol o fynd i'r afael â nhw. Y cwestiwn pwysicaf i mi yw sut mae annog pobl ifanc sy'n dysgu'r Gymraeg drwy'r system addysg i ddefnyddio'r iaith yn eu bywyd bob dydd.

Er bod canlyniadau'r Cyfrifiad yn siomedig, nid oeddent yn syndod. Roedd *Iaith Fyw: Iaith Byw* wedi rhagweld, i raddau helaeth, bod natur cymunedau Cymraeg eu hiaith yn newid, a bod patrymau o ran defnyddio'r Gymraeg mewn cymunedau, mewn teuluoedd, ac ymysg pobl ifanc yn enwedig, yn newid.

Mae eich Maniffesto wedi rhoi llawer inni gnoi cil arno. Roedd ein trafodaeth yn ein cyfarfod ym mis Chwefror yn adeiladol ac yn pwysleisio ein bod yn rhannu'r un dymuniad i weld y Gymraeg yn ffynnu. Mae sawl un arall ledled Cymru yn rhannu'r dymuniad hwn hefyd. Dyna pam rwy'n edrych ymlaen at glywed barn pobl o bob cwr o Gymru, ac o bob cefndir, yn ystod y Gynhadledd Fawr. Bydd y safbwyntiau hynny'n llywio ein proses o ddatblygu polisïau ar gyfer y Gymraeg. Gobeithiaf hefyd y bydd y trafodaethau cyn ac yn ystod y Gynhadledd Fawr yn ysbrydoli eraill - o sefydliadau mawr i grwpiau cymunedol ac unigolion - i gydweithio er mwyn cryfhau sefyllfa'r Gymraeg.

Yn gywir

**CARWYN JONES**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8198
ps.firstminister@wales.gsi.gov.uk